PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 22 | Mehefin 1, 2023 | 50c.

Bedydd

Mor braf oedd cael oedfa fedydd yng Nghaersalem Pontyberem pan gyflwynwyd Nico gan ei rieni Amy a Jon Williams i'r Arglwydd. Yn cynorthwyo'r teulu roedd y rhieni bedydd Gareth a Janet Williams. Croeso mawr i Nico i deulu Caersalem.

Deris Williams

Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd - Rhanbarth Ewrop

Roedd cael dychwelyd i Thesalonica ar ddechrau Mai 2023 yn brofiad – a hynny am ddau reswm. Mae yna 29 mlynedd ers i mi dreulio cyfnod yn y ddinas ym Mhrifysgol Aristotlys ac amheuthun oedd y cyfle i adnewyddu cyfeillgarwch gyda rhai o'm cydweithwyr. Yn fwy, er hynny, roedd y cyfle i dreulio tridiau yng nghwmni cyd-Gristnogion o eglwysi ar draws Ewrop sy'n aelodau o Gymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd – corff sydd, ar lefel fyd-eang, yn cynrychioli 233 o eglwysi, enwadau ac undebau, dros 105 gwlad (rhyw 100 miliwn o Gristnogion). Dyma oedd y tro cyntaf i ni gyfarfod wyneb yn wyneb er 2019, a hynny yng Nghaeredin.

Cenhadaeth

Yn adeilad cyfoes yr Eglwys Efengylaidd yng Ngwlad Groeg yn Thesalonica y cynhaliwyd ein cyfarfodydd. Hon yw'r eglwys Brotestannaidd hynaf yn ninas Thesalonica; fe'i sefydlwyd yn 1865. Fe'i hadeiladwyd ar seiliau teml o'r cyfnod Rhufeinig, pan oedd Thesalonica yn ail ddinas i Gaer Cystennin, a gwelir colofnau o'r cyfnod hwnnw yn rhannau tanddaearol yr eglwys bresennol. Cawsom glywed am ei chenhadaeth –

parhad ar dudalen 2

NEGES SULGWYN LLYWYDD UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Fe gyhoeddodd y Parchg Beti Wyn James ddatganiad perthnasol iawn i'r cyfryngau torfol ar gyfer y Sulgwyn. Datganiad y dylem gnoi cil yn fyfyrgar dros ei gynnwys. Dywedodd:

'Mae cyfyngu crefydd tu fewn i furiau capel ac eglwys yn arwain yn gyflym at dranc Cristnogaeth mewn sawl cymuned. Wrth i ni ddathlu yr hyn ystyrir fel genedigaeth yr eglwys Gristnogol, rydyn ni'n cael ein hunain mewn lleiafrif yn ein gwlad am y tro cyntaf ers yr Oesoedd Tywyll. Pan wnaeth yr Ysbryd Glân ddisgyn ar ddisgyblion Iesu ar y Sulgwyn cyntaf hwnnw, fe wnaethant ymateb trwy rannu'r Efengyl â phobl o sawl cenedl a oedd wedi ymgasglu yn Jerwsalem. Mewn amser, daeth Cristnogaeth yn brif grefydd y byd.

'Ond ydy Cristnogaeth yn marw mas mewn cymunedau ar draws Cymru, fel mae canlyniadau'r cyfrifiad diweddar yn dangos, oherwydd ein bod ni'n ceisio cloi'r Ysbryd Glân o fewn ein hadeiladau? Cymharodd Iesu yr Ysbryd â'r gwynt, sy'n chwythu fel y mynn.

'Er ei fod yn amlwg yn chwythu i gyfeiriad gwahanol yn yr oes hon, mae Ysbryd Duw yn dal ar waith trwy weithredoedd anhunanol ac agweddau gwaraidd yn ein cymunedau. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fel Cristnogion dderbyn a deall y newid cyfeiriad yma, ac addasu ein dulliau o weithredu yn unol â hynny, wrth i ni ymateb i'r her o gyhoeddi ac ymarfer neges Iesu Grist yn y cyfnod mwyaf anodd hwn.'

Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd - Rhanbarth Ewrop – *parhad*

cynnig cartref ffydd i fyfyrwyr y Brifysgol – daw rhyw 100 o fyfyrwyr ynghyd bob nos Sadwrn i Astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad y Parchedig Sotiris Boukis, gweinidog ieuenctid a theuluoedd yr eglwys, ac yn ddyddiol, cynigir bwyd i dlodion a ffoaduriaid Thesalonica.

Busnes

Treuliwyd cryn amser ar faterion busnes. Diweddaru'r cyfansoddiad oedd ein prif destun trafodaeth busnes, hynny yn sgil y newidiadau a ddaeth o benderfyniadau'r Cyngor Cyffredinol yn Leipzig yn 2017. Defnyddiais y cyfle i godi materion yn ymwneud ag oblygiadau stiwardiaeth o'r cread a'r angen i ni i'w hystyried cyn gwneud unrhyw drefniant cyfarfod. Mae hwn yn benderfyniad anodd i gyrff tebyg i'r Cymundeb gan fod y *koinonia* a ddaw yn sgil cyfarfod wyneb yn wyneb yn hollbwysig ac anodd ei greu ar-lein. Cytunwyd y byddem o hyn allan yn ystyried o ddifrif cyn pob cyfarfod a oes angen ymgasglu mewn un lleoliad. Da yw hyn – gan nad rhywbeth i eraill yw gofal am y blaned!

Addoli mewn argyfwng

Cafwyd trafodaeth dda ar ddogfen ymgynghorol ar addoli mewn argyfwng - boed ryfel, pandemig neu economi. Dyma'r agwedd orau o'r cyfarfodydd hyn; grwpiau bach a chael rhannu tystiolaeth bersonol. Er i mi gael fy enwi fel *rapporteur* cefais ddigon o gyfle i sôn am y modd y bu i ni, eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ymateb i her Covid, y trafodaethau am yr ymateb Cristnogol i ryfel Wcráin, a'r modd y ceisiwn sicrhau addoliad trwy wasanaeth ymysg y rheini yn ein plith sy'n llai ffodus. Golygir y ddogfen hon yn sgil y drafodaeth cyn ei rhannu ymysg yr eglwysi i hybu ystyriaeth bellach.

Sesiwn ddirdynnol

Heb amheuaeth, sesiwn mwyaf dirdynnol y tridiau oedd anerchiad yr Esgob Sándor Zán Fábián o Eglwys Ddiwygiedig Is-Carpathia. Bu'n trafod yr hyn sydd wedi digwydd yn ei wlad er misoedd Chwefror a Mawrth 2014, pan oresgynnodd Rwsia Benrhyn y Crimea, cyn ei gyfeddiannu. Er disgrifio sefyllfaoedd difrifol a dioddef erchyll, pwysleisiodd yr esgob fod yn rhaid inni ddibynnu ar Dduw bob amser, bod â ffydd ac ymddiried ynddo. Mae Llyfr Job (14: 7–9), meddai, yn ein galw i obeithio: 'Er i goeden gael ei thorri, y mae gobaith iddi ailflaguro, ac ni pheidia ei blagur â thyfu. Er i'w gwraidd heneiddio yn y ddaear, ac i'w boncyff farweiddio yn y pridd, pan synhwyra ddŵr fe adfywia, ac fe flagura fel planhigyn ifanc.' Aeth yn ei flaen, 'Er ein bod ni'n wynebu pob math o anawsterau, mae'n rhaid i ni gael gobaith o hyd. Os yw Duw yn gofalu am adar yr awyr, os yw'r goeden wedi'i thorri yn blaguro, yna faint o obaith a ddylai fod gan ddilynwr Crist?'

Roedd gwrando arno yn ysbrydoliaeth a dwysbigwyd pawb gan ddwyster a dyfnder ei ffydd mewn cyfnod mor anodd yn hanes ei wlad a'i phobl.

Kintsugi

Cefais fy ysbrydoli hefyd gan eiriau Llywydd y Cymundeb, y Parchedig Najla Abou Sawan Kassab, sy'n weinidog ordeiniedig yn Synod Efengylaidd Syria a Libanus. Soniodd am gelf hynafol Japaneaidd o atgyweirio crochenwaith toredig trwy ailgydio'r darnau gyda lacr wedi'i gymysgu ag aur, arian, neu bowdr platinwm – *kintsugi*. Athroniaeth y gelfyddyd yw pwysigrwydd gweld torri ac atgyweirio yn rhannau annatod o'n hanes ac nid fel diffyg y dylid ei guddio. Canolbwyntia'r gelf ar ddryllio, cyn harddu a rhoi gwedd newydd, harddach nag o'r blaen. Onid dyna, gofynnodd Najla, waith yr eglwys?

Ef yw y Crist

Fel rhan o'i ail daith genhadol bu'r Apostol Paul yn ymweld â Thesalonica gyda Timotheus a Silas. Yma, y pregethodd 'Yr Iesu hwn, yr hwn yr wyf yn cyhoeddi i chwi, yw y Crist.' (Actau 17: 3) Ar ôl tridiau o drafod a bod yng nghwmni 'pobl y ffydd' wedi ymgynnull o bob cwr o'n cyfandir, o gael clywed ac ystyried negeseuon Sándor Zán Fábián a Najla Kassab, a chael myfyrio o flaen y garreg ym Mynachlog Vlatadon lle, yn ôl traddodiad, y safodd Paul arni i bregethu, gweddïaf innau am nerth i fedru datgan fy ffydd mewn byd toredig gyda'r fath arddeliad. Diolch Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y fraint o gael ein cynrychioli.

Hefin Jones

GWISGO GOGONIANT

> Diosg, O! Jerwsalem, wisg dy alar a'th adfyd, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sydd yn tarddu o Dduw. Rho amdanat fantell y cyfiawnder sydd o Dduw, a gosod ar dy ben goron gogoniant y Tragwyddol. Oherwydd fe ddengys Duw dy ddisgleirdeb i bob gwlad dan y nefoedd. Derbynni oddi wrth Dduw am byth yr enw 'Heddwch cyfiawn', a Gogoniant duwiol'. Cod, Jerwsalem, a saf ar dy le uchel, ac edrych tua'r dwyrain, a gwêl dy blant wedi eu casglu ynghyd o'r gorllewin hyd at y dwyrain, ar orchymyn yr Un Sanctaidd, yn llawenhau fod Duw wedi eu cofio.
>
> Baruch 5:1-4

> Gwisgwch yr Arglwydd Iesu Grist amdanoch; a diystyrwch y cnawd a galwad ei chwantau.
>
> Rhufeiniaid 13: 14

Gwisgwch amdanoch yr Arglwydd Iesu Grist meddai Paul (WM). Gwisgo Iesu! Am ffordd ryfedd o siarad am ein perthynas ag Iesu Grist!

Er mwyn cael deall y syniad hwn o wisgo Iesu, rhaid ystyried y darn o'r ysgrythur mae Paul yn ei ddefnyddio fel sail i'r syniad. Yn ôl yr ysgolheigion, benthyciodd Paul y syniad o wisgo Duw gan awdur o'r enw Baruch.

Un o lyfrau'r Apocryffa yw Llyfr Baruch. Sylwch yn arbennig ar eiriau agoriadol y bumed bennod: *Diosg, O! Jerwsalem, wisg dy alar a'th adfyd, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw* (5:1).

Cyfnod Baruch

Gawn ni feddwl yn fras a bas, am Baruch, ei gyfnod a'i bobl.

I ddeall Baruch a'i bobl, mae'n bwysig i ni gofio fod Baruch yn ysgrifennu chwe chan mlynedd cyn geni Crist: cyfnod cas i bobl Israel. Cyfnod o alltudiaeth greulon; cyfnod o dlodi mawr ym Mabilon bell. Yn y cyfnod anodd hwn, ryw bethau ymarferol iawn oedd dillad, rhyw bethau at y gofyn. Ond roedd carpiau eu tlodi yn dweud rhywbeth amdanynt – yn dweud wrth bobl Babilon mae estron oeddent; pobl wedi eu gorchfygu oeddent – pobl a thrueni'n drwm amdanynt. Dychmygwch felly pa mor anodd a phoenus i bobl Jerwsalem gynt, a hwythau nawr, ymhell bell o adref dan bawen Nebuchadnesar ym

parhad ar dudalen 6

Yr Adran
Gydenwadol

MEHEFIN 1 2023 RHIF 118

Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru Gweddïau ar gyfer Sul y Cyfamod, 11 Mehefin 2023

Mae Sul, 11 Mehefin, wedi ei nodi fel Sul y Cyfamod.

Gadewch inni atgoffa'n hunain eto o alwad Crist am 'iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti' (Ioan 17, adn. 21). Nid yw rhannu'n bywydau a'n gwaith â'n gilydd fel eglwysi yn hawdd nac yn amlwg bob amser, ond gadewch i ni barhau i gydnabod ein galwad i'r weinidogaeth a'r undod a rannwn â'n gilydd.

Dyma weddïau i'w rhannu ar y Sul …

Gweddi o fawl ac addoliad
Yr ydym yma yn y lle hwn, i'th foli a'th addoli,
I gynnig ein cariad, ein gobaith a'n llawenydd,
I osod gerbron ein Brenin a'n Crist
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Canwn gân newydd, a bydded i'n bywydau fod yn alaw,
Codwn lef, er mwyn peidio â theimlo cywilydd mwyach,
Rydym yn cynnig ein geiriau, ein gweithredoedd a'n hanfod,
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Fel y gwnaeth Abram a Sarai gynt
Bydded i ni adeiladu ein bwrdd a chynnig ein bara,
Fel Mathew a Paul, gadewch i ni godi a dilyn,
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Caneuon y cyfamod, a ysgrifennwyd yn yr Ysgrythurau,
A wireddir yn y lle hwn, mewn gobaith ac mewn llawenydd,
Cerddwn o'r lle hwn gyda'n Brenin a'n Crist,
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Cyffes:
Am y pethau hynny rydyn ni wedi'u gwneud, na ddylem ni fod wedi eu gwneud,
A'r hyn na wnaethom, ond y dylem ni fod wedi eu gwneud,
Yr hyn oll yr ydym yn ymdrechu â nhw, er nad oes bai arnom am hynny
Cyffeswn i ti,

Cyffeswn yn y Ffydd y gall pethau newid,
Cyffeswn yn y Gobaith y gallwn gael ein newid,
Cyffeswn mewn Cariad tuag at y Duw sy'n gwireddu gwyrthiau o'n mewn.

Gofynnwn am dy faddeuant, gofynnwn am dy gymorth, gofynnwn am dy iachâd.

Yn enw Iesu, Amen.

Y Colect:
Dduw sy'n cadw ei addewidion, sy'n gwireddu yr hyn y mae'n ei addo,
Cerdda gyda ni wrth i ni barhau â'n taith a dod o hyd i ffyrdd newydd
o fod yn hen eglwys.
Estyn dy law tuag atom, a'n harwain i ddod o hyd i'n lle yn dy deyrnas. Amen.

Ymbiliau a Gweddïau o Ddiolchgarwch:
Ar Sul y Cyfamod hwn, cofiwn am yr addewidion a wnaed gan bump enwad Cristnogol yng Nghymru i gydgerdded gyda'i gilydd, ochr yn ochr, er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o gydgerdded fel cyfeillion ac o fod yn eglwys. Rhown ddiolch am weledigaeth y rhai hirben a fu'n teithio o'n blaenau, yn ogystal â'r rhai sy'n parhau ar hyd y daith hon heddiw.

Deled dy Deyrnas
Gwneler dy ewyllys
Diolchwn am esiampl Abram a Sarai, Mathew a Paul, a ddilynodd y llwybrau yr oeddet ti wedi eu harwain atynt, heb wybod i ble yr oeddent yn eu harwain, na'r heriau a fyddai'n eu hwynebu ar hyd y daith. Rhown ddiolch i ti am ddilynwyr Iesu heddiw, y mae eu hesiampl yn ein herio ni i fod yn well pobl Dduw.

Deled dy Deyrnas
Gwneler dy ewyllys
Gweddïwn dros y byd o'n cwmpas – y rhai sy'n eistedd mewn swyddfeydd, gweinyddwyr a chlercod, sy'n ceisio dy ddilyn. Gweddïwn dros yr anhrefn a achosir gan newid hinsawdd, dros y gwledydd hynny sy'n wynebu dinistr a rhyfel, a'r rhai sy'n wynebu newyn a thrallod. Cynorthwya ni i fod yn ateb i weddi rhywun arall.

Deled dy Deyrnas
Gwneler dy ewyllys
Gweddïwn dros y rhai agosaf atom, y rhai yr ydym yn eu caru a'r rhai nad ydym mor hoff ohonynt, am bob un sydd angen ein gweddïau ni a'th iachawdwriaeth di.

[*ychwanegwch weddïau addas i'ch cyd-destun lleol yma*]

Deled dy Deyrnas
Gwneler dy ewyllys
Gweddïwn dros y rhai a fu farw. Cynorthwya ni i fyw ein bywydau mewn ffordd sy'n goffadwriaeth deilwng iddynt hwy.

Dduw trugarog, rhoi dy ras i ni, cryfha ein calonnau a'n heneidiau i fedru wynebu pa beth bynnag a ddaw ar hyd y daith.
Amen.

Fandaliaeth Capel y Drindod

Gyda thristwch y clywsom y newyddion am fandaliaid yn torri i mewn i Gapel y Drindod ym Mhwllheli yn ddiweddar. Achoswyd cryn ddifrod i du fewn y capel, gan gynnwys y bwrdd cymun, yr organ a rhai o'r creiriau hanesyddol. Roedd hyn yn fandaliaeth hollol di-alw-amdano, ac anfonwn ein cofion at weinidog yr eglwys, y Parch. W. Bryn Williams, a'r praidd o dan ei ofal.

Mewn cyfweliad gyda'r BBC, dywedodd Bryn nad yw hyn wedi effeithio ar eu gallu i addoli a gweithredu fel eglwys, gan mai yn y festri maent yn cyfarfod ar hyn o bryd, ond bod y profiad wedi tristáu a dychryn llawer o'r aelodau, ac yn arbennig y rhai hŷn.

Gobeithiwn y llwyddir i ddal y rhai a fu'n gyfrifol, ac y caiff addoldai'r dref lonydd. Rai blynyddoedd yn ôl daeth yr union brofiad i aelodau capel y Tabernacl yn y dref, sef addoldy'r Bedyddwyr, lle dinistriwyd y tu fewn yn llwyr gan fandaliaid. Mae hyn eto'n ein hatgoffa o'r math o fyd rydym yn byw ynddo, a'r angen am efengyl sy'n trawsnewid bywydau ac yn rhoi pwrpas i bobl mewn bywyd. Gweddïwn dros aelodau'r eglwys a dros y dref yn y cyfnod heriol yma.

Pregeth gan gyfrifiadur?

Roedd sgwrs Stephen Nantlais Williams ar ddeallusrwydd artifisial ar raglen *Bwrw Golwg* ganol Ebrill yn ddigon i godi ofn ar rywun. Mae Stephen yn gyd-olygydd y gyfrol *The robot will see you now*, sy'n trafod y dechnoleg ddiweddaraf.

Dechreuodd y sgwrs yn ddigon diniwed wrth sôn yn chwareus y gallai deallusrwydd artiffisial greu pregeth fymryn yn well nag ambell bregethwr. Mae'r rhaglen ChatGPT, er enghraifft, yn gallu ysgrifennu traethodau a phregethau yn daclus ac yn amlhaenog – cymaint felly fel bod darlithwyr colegau yn ei chael hi'n anodd dirnad ai myfyriwr neu beiriant sydd wedi cyflawni'r gwaith. Pryder pennaf Stephen yn ei bennod yn y gyfrol yw fod y cyfan yn cael ei lywio gan y syniad mai peth mecanyddol yw'r ymennydd a'r ymwybyddiaeth ddynol. Felly, credir y gellir creu peiriant – sef cyfrifiadur neu ddeallusrwydd artiffisial sydd yn gallu meddwl a gweithredu fel pobl, a hyd yn oed yn well na phobl. Ond y mae dehongliad felly yn anwybyddu'r cyswllt rhwng y corff a'r ymennydd; mae person yn berson cyflawn, nid yn fecanwaith cemegol yn unig. Mae pobl hefyd wedi eu creu ar lun a delw Duw, ac wedi eu creu i fod mewn perthynas â'u Crëwr. Felly, ni all deallusrwydd artiffisial gyrraedd y fan honno, waeth pa mor alluog y gallai fod.

Wrth i'r sgwrs ddatblygu roedd elfennau llawer iawn mwy dychrynllyd yng nghylch deallusrwydd artiffisial dan y chwyddwydr. Mae 'na gwestiynau amlwg yn codi ynghylch pwy sydd yn rheoli'r datblygiadau hyn. Ar hyn o bryd, buddsoddiad sydd yn llywodraethu'r datblygiad; golwg cwmnïau ar elw yw un o'r prif ffactorau. Y mae llywodraethau yn araf iawn i weld yr angen am gytundeb rhyngwladol i reoli datblygiadau allai fynd allan o reolaeth.

Mae dwy ffactor oedd yn codi ofn. Yn gyntaf, mae llawer iawn o'r datblygiadau yn cael eu hariannu gan gwmnïau arfau. Mae'n rhan o'r ymdrech i gael arfau a milwyr nad yw cydwybod yn eu llesteirio. Yn ail, y mae gwyddonwyr yn sôn bellach am *super intelligence*. Cyfrifiaduron yw'r rhain sydd yn rhesymegu ac yn gweithio tu hwnt i ddeallurwydd ddynol. Gallai'r cyfrifiaduron hyn greu peiriannau na all y meddwl dynol eu deall na'u hamgyffred, a gwneud hynny heb y cyfyngiadau na'r gofal y byddai cymdeithas am eu gweld. Mae'r ddwy elfen yna'n ddigon i yrru ias oer ar hyd gwegil rhywun, ac efallai'n alwad arnom i bwyso ar lywodraethau

i sicrhau fod mwy o bwyll a gwell rheolaeth.

John Roberts

The Robot Will See You Now: Artificial Intelligence and the Christian Faith, eds. John Wyatt, Stephen N. Williams (SPCK Publishing, ISBN: 978-0281084357; £7.99)

(Cyhoeddwyd yr erthygl wreiddiol yn *Perthyn: Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau*, Mai 2023)

Sefydlu Rhwydwaith Daniel Rowland ar y cyd ag Union

Partneriaeth newydd yw Rhwydwaith Daniel Rowland rhwng Ysgol Ddiwinyddiaeth Union a rhai sy'n rhannu'r Efengyl yn y Gymraeg, neu mewn cyd-destunau dwyieithog yng Nghymru.

Rydym wrth ein bodd fod Dr Rhodri Glyn, gweinidog Capel y Ffynnon, Bangor, wedi ymuno â ni fel Cydlynydd y rhwydwaith yma o weinidogion ac eglwysi. Amcan y rhwydwaith yw darparu hyfforddiant diwinyddol cyfrwng Cymraeg gan feithrin mwy o gydweithio cenhadol a phlannu eglwysi yng Nghymru.

Yn ychwanegol, caiff Canolfan Daniel Rowland ei sefydlu yn Llyfrgell yr Union School of Theology ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fydd yn cynnwys casgliad helaeth o weithiau diwinyddol Cymraeg. Meddai Rhodri, "Rydym yn gweddïo y bydd Rhwydwaith Daniel Rowland a'r bartneriaeth gydag Union yn sbarduno ymdrechion i rannu'r Efengyl yn y Gymru gyfoes, gyda'r gobaith y cawn ein hysbrydoli wrth ryfeddu o'r newydd at waith Duw yma yn y gorffennol."

Dywed Dr D. Eryl Davies, Arolygydd Ymchwil Union:

> Dyma gynllun pwysig i gefnogi ac annog gweinidogion Cymraeg a'r rhai sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd dwyieithog yng Nghymru. Rwy'n llawenhau wrth gymeradwyo'r fenter, yn enwedig o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn, Bangor. Gweddïaf y bydd y Rhwydwaith o dan fendith Duw yn hybu lledaeniad yr Efengyl ymhlith Cymry Cymraeg a dysgwyr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cydweithio â'r Rhwydwaith, neu os hoffech gael gwybodaeth bellach, croeso i chi anfon e-bost at: rglyn@union.ac.uk

Canolfan Daniel Rowland Centre

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

26 Ymson Duw

Darllen: Genesis 18:16–21

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 13)

Yn dilyn galw Sarah i gyfrif am iddi amau addewid Duw, rydym yn awr yn dod ar draws ychydig adnodau diddorol iawn. Rhwng ailgadarnhau'r addewid ac ymbil Abraham dros Sodom a Gomorra, mae'r ychydig adnodau hyn yn hynod ddadlennol wrth inni ystyried yr hyn fydd yn digwydd ym mhennod 19, a dinistr y ddwy ddinas. I mi, mae'r adnodau'n rhoi cyd-destun inni ddeall yn well pwy sydd am weithredu yn achos y ddwy ddinas, sut un yw Duw, a pham mae'r dinasoedd yn cael eu dinistrio.

Yn fynych iawn yn hanes yr Eglwys mae yna bobl – unigolion ac ambell gwlt cyfan – sy'n credu eu bod yn medru rhagdybio pam mae hyn a'r llall wedi digwydd, neu beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Mae'n anodd ambell waith inni ddadlau â phobl o'r fath ar gyfrif eu bod yn gwisgo'u dehongliad mewn iaith sy'n swnio'n ddigon Beiblaidd, a braidd y byddwch yn teimlo'n anysbrydol iawn yn eu hamau. Rwy'n cofio, wrth gychwyn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, synnu o ddeall bod rhai o arweinwyr y Methodistiaid cynnar yn cael eu hadnabod fel proffwydi, rhywbeth oedd yn gyffredin i sawl cangen o'r Eglwys cynt ac wedyn. Ond proffwydi yn yr ystyr eu bod yn gyfrifol am gyhoeddi a rhannu Gair Duw oedd y rhain, nid proffwydi yn yr ystyr a geir yn yr Ysgrythur, lle y maent yn dod â gair o'r newydd – 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd ...'

Yn Job 11, mae Zophar, un o 'gynghorwyr Job', yn dweud wrtho: 'A elli di ddarganfod dirgelwch Duw, neu gyrraedd at gyflawnder yr Hollalluog? Y mae'n uwch na'r nefoedd. Beth a wnei di? Y mae'n is na Sheol. Beth a wyddost ti? Y mae ei fesur yn hwy na'r ddaear, ac yn ehangach na'r môr' (11:7–9). Yn yr un modd mae Paul yn cydnabod: 'Ganddo ef yn unig y mae anfarwoldeb, ac mewn goleuni anhygyrch y mae'n preswylio. Nid oes neb wedi ei weld, ac ni ddichon neb ei weld' (1 Timotheus 6:16). Mae'n dyfynnu Eseia yn 1 Corinthiaid 2:16: 'Pwy a adnabu feddwl yr Arglwydd, i'w gyfarwyddo?' Os oedd Paul felly'n cydnabod bod yna elfen o dywyllwch, yn yr ystyr fod yna bethau am Dduw nad ydym am gael eu gwybod yn awr gan mai 'anghyflawn yw ein gwybod ni, ac anghyflawn ein proffwydo ni' (1 Corinthiaid 13:9), rhaid inni ymarfer gofal anghyffredin cyn hawlio medru deall holl droeon rhagluniaeth. Pam mae'r peth a'r peth wedi digwydd? Beth sy'n mynd i ddigwydd? I'r cwestiynau yma, ateb y Cristion yw na ŵyr mwy na neb arall, ond ei fod yn gwybod yn llaw pwy yr oedd ddoe, y mae heddiw, ac y bydd yfory.

Wedi dweud hyn i gyd, mae Duw yn Dduw sy'n ei ddatguddio'i hun, ac mae'r datguddiad hwnnw yn driphlyg, gyda'r tri yn cytuno o ran yr hyn y maent yn ei ddweud. Mae Duw yn ei ddatguddio'i hun yn y greadigaeth, yn yr Ysgrythur ac yn Iesu. Ystyriwch yr adnod hon: 'Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd. Am hynny, y maent yn ddiesgus' (Rhufeiniaid 1:20). Ac yna eto, adnod agoriadol y llythyr at yr Hebreaid: 'Mewn llawer dull a llawer modd y llefarodd Duw gynt wrth yr hynafiaid trwy'r proffwydi, ond yn y dyddiau olaf hyn llefarodd wrthym ni mewn Mab.' Mae'r greadigaeth yn tystio i fodolaeth a phriodoleddau Duw, yr Ysgrythur yn datguddio bwriadau achubol Duw, ac Iesu yn datguddio Duw ei hun yn Dduw sydd wedi dod i'n hachub. Dyma holl fwriad Duw o'r cychwyn, yn ei haelioni, yn ei gariad mae am inni ei adnabod, dod i berthynas ag Ef, a byw yn awr ac byth yn ei gwmni. O dro i dro yn y Beibl cawn y nefoedd yn agor y llenni ychydig yn lletach er mwyn inni gael gweld hyn.

Dyma a geir yn yr adnodau hyn. Mae Duw am ddweud wrth Abraham beth mae am ei wneud, sut y mae i ddeall tynged y ddwy ddinas yma, ac mae'n gwneud hynny o fewn y berthynas arbennig oedd rhyngddo ac un o'i blant, perthynas sy'n realiti i bawb yng Nghrist. Yn Eseia 41:8 cyfeirir at Abraham fel 'f'anwylyd' neu'n llythrennol, fy ffrind. Mae'n siŵr eich bod yn cofio geiriau Iesu i'w ddisgyblion yn Ioan 15:14–15: 'Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn ichwi. Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad'. Mewn ffordd, mae Genesis 18:17 yn cyfeirio at yr un peth, yr un Duw sy'n awyddus i beidio â chelu 'rhag Abraham yr hyn yr wyf am ei wneud'.

Meddyliwch am y fath drugaredd ymostyngol o du'r nefoedd! Yn wir, mae adnod 21 yn mynd ymhellach gan ddweud y bydd yn dod i weld, nid yn gymaint gan nad yw'n gweld, ond er mwyn dangos i'w gyfaill ei fod yn drylwyr ac uniawn yn ei farn: 'disgynnaf i weld a wnaethant yn hollol yn ôl y gŵyn a ddaeth ataf; os na wnaethant, caf wybod'. Ond, yn fwy na hynny: 'fe'i hysbysaf, er mwyn iddo orchymyn i'w blant a'i dylwyth ar ei ôl gadw ffordd yr ARGLWYDD a gwneud cyfiawnder a barn, fel y bydd i'r ARGLWYDD gyflawni ei air i Abraham' (adn. 19).

1. Pa mor barod fyddwch chi i ymddiried ym mhwy yw Duw a phwy yw Iesu pan fyddwch yn ei chael hi'n anodd deall troeon rhagluniaeth?
2. Pa brofiadau sydd gennych o Dduw yn 'agor y llenni yn lletach' o bryd i'w gilydd? Oes adnodau, emyn, pregeth sydd wedi bod yn allweddol ichwi weld yn gliriach fwriadau Duw?
3. Mae Duw yn dweud wrthym pam ei fod am ddatguddio'i fwriadau i Abraham. Pa mor bwysig yw rhannu â phlant a phobl eraill o'n cwmpas beth mae Duw wedi ei wneud, a beth mae Duw am ei wneud?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 4 Mehefin, am 7.30yh
Yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr bydd Ryland yn dathlu cyfraniad y bobl arbennig sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni i gefnogi'r Gwasanaeth Gwaed. Daw'r canu mawl o oedfa awyr agored yn sir Benfro.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 4 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp
Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Blaen-ffos

Sul, 4 Mehefin, am 12yp
Oedfa dan ofal Gwyn Elfyn Jones, Pontyberem

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

GWISGO GOGONIANT – *parhad*

Mabilon, oedd clywed Baruch yn gorchymyn: *Diosg, O! Jerwsalem, wisg dy alar, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw. Rho amdanat fantell y cyfiawnder sydd o Dduw, a gosod ar dy ben goron gogoniant y Tragwyddol*.

Roedd y bobl hyn yn gweld dim ond anobaith a thor calon. Roedd gwisg eu galar yn dynn amdanynt – yn rhan ohonynt. Nid oeddent yn gallu dychmygu eu hunain yn gwisgo unrhyw wisg arall. I bobl Baruch, un dilledyn na ellid bod hebddo oedd y fantell. Roedd y fantell yn amddiffyn, yn ddiogelwch. Yn eich tlodi, eich mantell oedd y gwahaniaeth rhwng byw a marw; eich unig amddiffyn rhag yr elfennau. Mae Baruch felly yn cydio yn y fantell fel delwedd, ac yn deisyf ar ei bobl i ddiosg gwisg eu galar er mwyn gwisgo amdanynt fantell *y cyfiawnder sydd o Dduw*.

Her a chysur

Awgrymaf fod geiriau Baruch yn cynnig i ni her a chysur – y ddau ymhlyg yn ei gilydd:

> Diosg wisg dy alar, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw. Rho amdanat fantell y cyfiawnder sydd o Dduw, a gosod ar dy ben goron gogoniant y Tragwyddol.

Nid cynnig cyngor am ffasiwn mae Baruch, ond cynnig cyngor byw. Nid peth mewnol yn unig yw ein perthynas â Duw, meddai Baruch; i'r gwrthwyneb, dilledyn i'w wisgo yw ffydd, mantell yw ffydd, mantell i'w wisgo er mwyn amddiffyn a chynnal ein hunain, ac er mwyn i eraill weld ein ffydd amdanom: *Diosg, O Jerwsalem, wisg dy alar, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw ... Oherwydd fe ddengys Duw dy ddisgleirdeb i bob gwlad dan y nefoedd* (ad. 3).

Mae'n amlwg o'r darlleniad mai'r rheswm dros wisgo mantell cyfiawnder yw bod y fantell hon yn well na gwisg galar ac adfyd.

Peidiwn â gadael i'r mynd hwylus sydd ar y dôn, 'Pen yr Yrfa' ein gwneud yn esgeulus o eiriau godidog Roger Edwards (1811–86); *C.Ff.* 331), yn arbennig y cwpled:

> Fy ngwisgo a'i gyfiawnder,
> Yn *hardd* gerbron y Tad.

Dyma ewyllys Duw ar ein cyfer. Ein bod yn diosg yr hen ddillad, pa mor gysurlawn bynnag y bont, a gwisgo'n hytrach dillad newydd sbon *harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw*. Rhan fendigedig o waith achubol Duw yng Nghrist yw ein harbed rhag hunan-ddirmyg drwy ein gwisgo a'i gyfiawnder Ef ei Hunan, ie 'Yn *hardd* gerbron y Tad.'

Owain Llŷr Evans

Arthur MacLoughlin Broome 1779–1837

Sylfaenydd y RSPCA, yr elusen sy'n gofalu am anifeiliaid

Yn aml collwn olwg ar ddylanwad aruthrol Cristnogaeth ar gymdeithas yma yn y gorllewin ac ar egwyddorion pobl yn gyffredinol. Tybiwn weithiau mai tarddiad seciwlar sydd i fudiadau cyfiawnder cymdeithasol. Ond o dyrchu tan yr wyneb dysgwn mai Cristnogion oedd sylfaenwyr llawer o'r mudiadau sy'n gwneud cymaint o les. Ystyriwn hyn yma wrth edrych ar hanes sylfaenydd y RSPCA, Arthur Broome.

Ganwyd Arthur MacLoughlin Broome ar 18 Chwefror 1779 ac fe'i bedyddiwyd yn Sidbury, Dyfnaint, ar 28 Awst 1785. Mab ydoedd i Arthur a Frances Broome. Aeth i Goleg Balliol ym mis Mawrth 1798 gan ennill gradd BA. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn Eglwys Loegr ym 1803 gan esgob Llundain. Bu'n gurad ym mhlwyfi Brook a Hinxhill yng Nghaint ac yna yn Cliffe-at-Hoo. Yna fe'i penodwyd yn ficer St Mary's-Bromley- St Leonard, Middlesex, ym 1820.

Cam-drin anifeiliaid

Cyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ystyrid anifeiliaid yn ddim mwy nag eiddo y gallai perchenogion wneud beth bynnag a fynnent gyda hwy. Golygai hyn fod rhai anifeiliaid yn cael eu cam-drin yn ddychrynllyd gan nad oedd unrhyw gyfreithiau i'w hamddiffyn. Pasiwyd y ddeddf gyntaf i amddiffyn anifeiliaid yn San Steffan ym 1822, a hynny o dan arweiniad medrus Richard Martin, Aelod Seneddol o Ddulyn. Ceisiwyd, yn aflwyddiannus, sefydlu cymdeithas atal creulondeb tuag at anifeiliaid ym 1809. Ailgydiwyd yn y weledigaeth ym 1822

gan y Parchg Arthur Broome. Aeth ef ati i sefydlu cymdeithas i hyrwyddo gweithredu deddf Martin a hybu hawliau anifeiliaid. Hysbysebodd y gymdeithas yn y cylchgrawn poblogaidd *John Bull*. Er na ddaeth dim o hyn ar y pryd fe ddyfalbarhaodd. Talodd Broome o'i boced ei hun i gyflogi Charles Wheeler i chwilio am achosion o gam-drin anifeiliaid fel y gellid erlyn y bobl oedd yn gyfrifol.

Y flwyddyn ddilynol, cyhoeddodd bamffled gan Humphrey Primatt sef; *A Dissertation on the Duty of Mercy and Sin of Cruelty to Brute Animals*. Rhoddwyd troednodyn ar y pamffled y byddai unrhyw elw a wnaed o'r gwerthiant er budd y Society for the Prevention of Cruelty to Animals – er nad oedd hi'n bodoli ar y pryd.

Sefydlu

Yr oedd ei ail ymdrech i sefydlu cymdeithas yn llwyddiannus. Cyfarfu nifer o wŷr bonheddig yn yr Old Slaughter's Coffee House yn Westminster ym Mehefin 1824. Yno yr oedd 22 o ddynion yn cynnwys Syr Thomas Foxwell Buxton, Aelod Seneddol a Chrynwr ac aelod o Sect Clapham, fel cadeirydd; tri

parhad ar dudalen gefn

Barn Annibynnol

Baich ein haddoldai

Tebyg bod eich tre agosa chi yn debyg iawn i'n tre ni yma yn Sir Gâr. Siopau o bob math yn cau, a chanol y dre'n mynd i edrych yn llwm a difywyd o ganlyniad. Cwyd pob math o esboniadau paham mae hyn y digwydd, o gostau rent, treth neu gyflogau i'r ffaith fod patrwm pobol o brynu nwyddau wedi newid drwy fynd ar-lein. Mae'r banciau yn cau o un i un, a'r Swyddfa Bost wedi ei llyncu i fewn i un o'r siopau eraill, neu hyd yn oed yn y garej leol.

Colledion

Yn amlwg, os nad yw 'busnes' yn denu pobol ac yn talu'r ffordd, yna mae'n rhaid edrych ar ffyrdd gwahanol o farchnata neu ... gau'r 'drysau' am byth. Onid dyna'r ffon fesur y dylid ei osod yn erbyn ambell gapel neu eglwys yn y dyddie hyn hefyd, tybed? O beth wela i, rydyn ni wedi colli plant, pobol ifanc ac aelodau canol-oed o'n eglwysi fel gwaedlif ers degawedau bellach, ac yn dal i wneud.

Busnes?

Clywais yn ddiweddar am drafodaeth rhwng trysorydd a gweinidog capel. Y trysorydd yn gweld y capel – o ran 'dal pen uwchben dŵr' – yn 'fusnes'. Y gweinidog wedyn yn dadle nad 'busnes' yw eglwys a chrefydd! Os yw'r trysorydd yn gywir, yna mae *profit & loss* yn chwarae rhan bwysig ym mywyd ein heglwysi ni hefyd. Os na welir cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, yna rhaid gofyn 'Pam?' Ac os na fydd y busnes – y gynulleidfa – yn tyfu, yna rhaid ailystyried dyfodol y busnes – y gynulleidfa – hwnnw. Mi fydde prif swyddog unrhyw fusnes, o edrych ar brinder tystiolaeth 'twf' mewn canran uchel o'n heglwysi, wedi hen gau nifer fawr o'n tai cwrdd ni, am nad ydynt yn dangos unrhyw gynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn!

Gyda chynnydd yng nghostau ynni; dros weddill y flwyddyn mi wêl llawer i gynulleidfa fach fod y costau cynhesu a goleuo capel – heb sôn am gostau cynnal a chadw – am fod yn rhy drwm i gyfiawnhau cadw addoldy ar agor yn wythnosol, os o gwbwl.

Gwallgofrwydd

Prin yw'r gynulleidfa sy'n barod i edrych ar ffyrdd newydd o fod yn 'eglwys' yn y gymuned – hyd yn oed gyda sbardun ariannol cronfa Arloesi ac Buddsoddi yr enwad. Erbyn hyn, llyffethair yw nifer fawr o'n haddoldai; brics a mortar sy'n sugno arian i'w cynnal a'u cadw. Clywais yn ddiweddar am gapel sydd ag ond ryw lond dwrn o aelodau ffyddlon, sy'n wyneb cost o ryw £33,000 i drwsio to'r capel! Eglwys arall gyda rhyw 6 aelod ffyddlon yn wynebu cost o dros £30,000 dim ond i drwsio wal y fynwent. Mae'r sefyllfa'n hollol wallgo!

Goradeiladu

Dylid defnyddio synnwyr cyffredin ar fyrder, a meddwl yn ddwys a oes yn rhaid i 'eglwys o bobol Dduw' wrth adeiladau sydd mor gostus o ran eu cynnal a'u cadw? Onid yw'n amser i ni ystyried canolfannau eraill yn y gymuned fel mannau i ni gyd-gyfarfod? Oni ddylid neilltuo arian ar gyfer ein gwaith o ymestyn allan i'n cymunedau? Beth am drefnu gweithgaredd yn y gymuned i blant a phobol ifanc ar noson waith? Beth am i'r eglwysi gwanaf waredu eu haddoldai a chyfarfod yn nhai ei gilydd i gynnal oedfa? Un o'r pethe gwaetha wnaeth ein cyndeidiau ni oedd adeiladu cannoedd o gapeli mawr a bach, festrioedd a mans i'r gweinidog gan gredu eu bod yn ganolog i waith y Deyrnas! Dyna beth yw etifeddiaeth ddrud!

Roeddwn mewn trafodaeth yn ddiweddar ac wrth drafod capel arbennig, a'r sylw a wnaed oedd bod y gynulleidfa fach oedd yn cyfarfod yno yn reit ddiogel yn ariannol, gan bod ganddynt dir i'w roi ar rent, ynghyd â 'mans'! Busnes fach ariannol reit hwylus felly!

Cofadail

Y diweddar Barchedig Iorwerth Jones, cyn Ysgrifennydd Cyffredinol ein henwad ni a nododd mewn rhifyn o'r *Tyst* 'nôl yn '70/80au y ganrif ddiwetha': 'Nad cofadail mo'r Eglwys, ond mudiad.' Onid oes yna beryg ein bod ni am gadw'r cofadail costied a gostio, ar draul bod yn fudiad i Iesu o Nasareth yn ein cymunedau? O fentro newid, yr un fydd y neges, sef y Newyddion Da am Iesu o Nasareth, ond wedi ei gyflwyno mewn dull a chyfrwng mwy cyfoes, dealladwy a perthnasol. Bydd yn rhaid i ni fod yn barod i drafod a chydnabod yr angen i ddarllen a deall yr Ysgrythyrau yng nghyd-destun y cyfnodau hanesyddol y cawsant eu croniclo. Beth fedrwn ni wedyn ddysgu o'r profiadau a'r hanesion rheini a all gyfoethogi bywydau pobol a chymunedau ein cyfnod ni?

'Nôl i'r gwreiddiau

Na, nid drwy wisgo'r hen adeilad a gwisg o dechnoleg yn unig, ond drwy droi yn ôl at beth yw gwir ystyr bod yn eglwys yn ein cymunedau drwy ddod i adnabod, gwrando a deall anghenion y gymuned; gofalu am, a bugeilio pawb, boed ganddynt ffydd neu gred ai peidio. Mae hi wedi hen droi'n bum munud i ganol nos! Does gennym ni fawr o amser ar ôl cyn i'n perthynas ni â'n cymunedau fynd i'r pedwar gwynt. Awn yn ôl cyn gynted a phosib at ein gwreiddiau fel dilynwyr Iesu, at ffyrdd symlach a mwy effeithiol o dystio a gwasanaethu! Ffydd a chred mewn dillad gwaith. Does dim angen y *gimmicks* – awn yn ôl at y *basics*!

Tom Evans, Peniel

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Gofalaeth Bro Morgannwg

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn diwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel Penarth.

Am fanylion, cysylltwch ag Alwena Harries, Ysgrifenyddes Bethel.
Ffôn: 02920 700272
Symudol: 07891 587373
E-bost: alwenaharries@gmail.com

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Arthur MacLoughlin Broome 1779–1837 – *parhad*

offeiriad a phum Aelod Seneddol – yn cynnwys William Wilberforce – ac Iddew o'r enw Lewis Gompertz. Yno, sefydlwyd cymdeithas a'i phrif nod oedd atal creulondeb tuag at anifeiliaid a cheisio newid agwedd meddwl pobl tuag at hyn. Penodwyd Broome yn ysgrifennydd ac ym 1824 rhoddodd y gorau i fod yn offeiriad er mwyn cymryd at y gwaith yn llawn amser. Sefydlwyd dau is-bwyllgor, y naill i ddylanwadu ar y farn gyhoeddus a'r llall i fabwysiadu dulliau i archwilio marchnadoedd, strydoedd Llundain, lladd-dai ac ymddygiad gyrwyr coets fawr.

Methdalwr

Yn fuan iawn cyhoeddwyd y pamffled *Cruelty to Brutes* a ysgrifennwyd gan Mrs Hall yn tynnu sylw at greulondeb tuag at deirw. Ariannwyd y gymdeithas i gychwyn gan roddion a Broome ei hun – er nad oedd yn ddyn cefnog. Erbyn Ionawr 1826 roedd y gymdeithas mewn dyled o £300. Er iddynt dderbyn rhodd o £100 carcharwyd Broome oherwydd gweddill y ddyled ac ymddiswyddodd o'r gwaith ym 1828.

Ond, er hyn bu'r gymdeithas yn llwyddiant yn ystod ei gyfnod fel ysgrifennydd. Cyhoeddwyd nifer o bamffledi ac yr oedd Charles Wheeler wedi casglu llawer o dystiolaeth am greulondeb. Penodwyd dyn arall i gynorthwyo Wheeler ac yn ystod y chwe mis cyntaf o weithredu daethpwyd â 63 o ddrwgweithredwyr o flaen eu gwell. Derbyniodd y Gymdeithas nawdd brenhinol drwy i'r frenhines Fictoria roi ei chefnogaeth iddi ym 1840. O ganlyniad gellid gosod y gair 'Brenhinol' fel rhan o enw'r gymdeithas. Am ryw reswm collodd Broome ddiddordeb yn y gymdeithas a diflannodd o'r gweithgareddau a'r ymgyrch. Bu farw ar 16 Gorffennaf 1837 yn Birmingham a rhoddwyd angladd tlotyn iddo yn Eglwys Sant Philip.

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.